**LC450**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Bwyd (Pysgnau o Tseina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod rheolaethau ar fewnforio pysgnau o Tseina.

**Rheol Sefydlog 11.5**

O dan Benderfyniad y Comisiwn 2002/79/EC dim ond drwy un o'r pwyntiau mynediad a restrwyd yn Atodlen II i'r Penderfyniad hwnnw y gellir mewnforio'r cynhyrchion dan sylw.

Gan nad oes yr un o'r pwyntiau mynediad a restrwyd yng Nghymru deellir, yn ddarostyngedig i baragraff (3), y bwriedir i reoliad 3 wahardd mewnforio i Gymru. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith y byddai cynhyrchion a fyddai'n cael eu mewnforio drwy un o'r pwyntiau mynediad a restrwyd i Loegr a'u hanfon at dderbynnydd yng Nghymru, yn cael eu hystyried, ac yn haeddiannol felly, fel eu bod wedi'u mewnforio i Loegr ac felly'n ddarostyngedig i'r rheolaethau yn y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr (OS 2002/774).

Ar y sail hyn mae rheoliad 3(2) yn datgan yn glir nad yw gwahardd mewnforio i Gymru yn atal cludo i Gymru gynhyrchion a fewnforiwyd yn gyfreithlon i mewn i Loegr.

Fodd bynnag, tynnir sylw at baragraff (1) o reoliad 3 (a'r cyfeiriadau ato ym mharagraffau (3) a (5)) sydd fel pe baent yn awgrymu bod modd mewnforio i Gymru os yw'r naill neu'r llall o is-baragraffau (a) neu (b) wedi'u bodloni. Er gwaetha'r esboniad bod paragraff (1) wedi'i gynnwys er mwyn sicrhau nad oes modd dod â chynhyrchion sy'n cael eu mewnforio yn anghyfreithlon i wledydd eraill y DU i mewn i Gymru, mae'r awgrym bod "mewnforio" *("import")* yn cael ei ganiatáu o dan baragraff (1) fel be bai'n mynd yn groes i'r gwaharddiad cyflawn ar fewnforio a osodwyd gan baragraff (2).

Deellir bod deddfwriaeth ddiwygio yn cael ei hystyried i unioni hyn, ac awgrymir y dylid mynd ar drywydd hynny.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn Esboniadol**

Mae’r gwrth-ddweud ymddangosiadol rhwng paragraffau (1) a (2) o reoliad 3 yn cael ei ailadrodd yn y Nodyn Esboniadol sy’n awgrymu (drwy’r defnydd o’r geiriau “except where” yng ngeiriau agoriadol yr ail baragraff) bod hawl mewnforio i Gymru.

Yn ogystal, mae’r cyfeiriad at gludo i mewn i Gymru gynhyrchion a fewnforiwyd yn gyfreithlon drwy bwynt mynediad penodol, yn rhoi’r argraff yn gamarweiniol mai dim ond o dan yr amgylchiadau a nodwyd ym mharagraff (b) y mae hynny’n gymwys.

**Rheoliad 5(2)**

Mae’r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi nodi pan fo offeryn statudol yn arfer pŵer i gymhwyso darpariaethau deddfiad yn ddarostyngedig i addasiadau, nad yw’n briodol i ddarparu ar gyfer hyn drwy nodi testun wedi’i addasu o’r darpariaethau sydd i’w cymhwyso (Sesiwn 1993/94, 28ain Adroddiad, paragraff 2).

Felly byddai wedi bod yn well pe bai rheoliad 5(2) wedi nodi’r addasiadau penodol. Byddai’r defnyddiwr wedyn wedi elwa o gael testun diwygiedig drwy gynnwys y testun hwnnw mewn atodlen.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Ebrill 2002